# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 12fed o Ionawr 2023 yn brydlon am 7:30 y.h. yng Nghapel Pencaenewydd, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Angela Williams (Cadeirydd), Sian Angharad Parry, Aled Lloyd Evans, Aled Davies, Thomas Prys Jones, Delyth Parry, Rhys Tudur, Tegid Jones, Sion Aled Jones a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau**. Cynghorwyr Margaret Griffith, Dylan Thomas, Miriam Williams, Darren Morley, Anwen Jones a Gareth O.Davies,

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion** cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 1af o Ragfyr 2022.

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS** Rhagfyr 2022 (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei gweld o flaen y cyfarfod a'i llofnodi).

4. **Datgan buddiant personol -neb**.

5. **Materion gan Un Llais Cymru**

6. **Hyfforddiant gan Un Llais Cymru –**
Y Cynghorydd Sian Parry wedi gwneud y Modiwl 10, Cadeirio.
Mae'r Cynghorwyr Dylan Thomas a Miriam Williams wedi gwneud Modiwl 9 y Cod Ymddygiad fis Rhagfyr, ac am wneud yr un Modiwl 2 – Y Cynghorydd fis Ionawr 2023.
Y Cynghorydd Delyth Parry am ei gwneud fis Ionawr/Chwefror.
Y Clerc wedi gwneud Modiwl 6, Cyllid Llywodraeth Leol a 21 sef Deall Cyllid Llywodraeth Leol Uwch fis Rhagfyr 2023. **Derbyn**.

7. **Arolwg Anghenion Tai Ardal Llanystumdwy – croesawyd Ms Mari Tudur, hwylusydd Tai Gwledig ar draws Conwy, Gwynedd a Món, Grwp Cynefin i'n plith.** Roedd eisiau adnabod anghenion tai lleol. Eglurodd fod Grwp Menter y Plu wedi comisiynu'r gwasanaeth i adnabod beth yw'r angen am dai yn yr ardal. Nid oes safle benodol ar gyfer datblygu tai fforddiadwy mewn golwg yn yr ardal yma, felly y bwriad yw darganfod yr angen, ac os oes angen bydd y gwasanaeth yn cefnogi Menter y Plu i ddarpari tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol yr ardal.

Bydd llythyr yn cael ei anfon at bawb yn ardal Cyngor Llanystumdwy yn fuan, a linc ar gyfer holiadur ar-lein.
Bydd diwrnod agored yn cael ei gynnal yn Nhafarn y Plu bnawn Mercher, 01.02.2023 rhwng 1:30 – 6:30 ar gyfer rhoi gwybod beth sydd ar gael yn yr ardal. **Cefnogi'r arolwg, oherwydd fod prinder tai fforddiadwy i'w prynu a'i rhentu yn yr ardal.**

8. **Gwasanaeth Ambiwlans Awyr o Gaernarfon i Rhuddlan** – derbyniwyd llythyr gan Gyngor Tref Pwllheli yn gofyn am gefnogaeth gan y cynghorau i wrthwynebu ei symud o Gaernarfon. Hefyd derbyniwyd ebost gan Mr Stephen Harrhy, Prif Gomisiynydd y Gwasanaeth Ambiwlans, yn cadarnhau mai dechrau Chwefror 2023 y bydd cyfnod y broses ffurfiol o ymgysylltu â'r cyhoedd yn cychwyn. **Y Clerc i anfon ymateb a chadarnhau gwrthwynebiad**.

9. **Adroddiad ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth bob 3 mlynedd, (gwnaed yr un diwethaf Rhagfyr 2019)** – roedd y Clerc wedi gwneud drafft newydd cyn cyfarfod a'i rannu ymysg y cynghorwyr. **Derbyniwyd yr adroddiad, a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.**

10. **Hwb Iechyd Eifionydd -**
Derbyniwyd ebost gan Mrs Sioned Thomas, Rheolwr Gwasanaeth Hwb Iechyd Eifionydd yn egluro fod Grŵp Cyswllt Cleifion bellach wedi ei sefydlu ar gyfer y practis a'i bod eisioes wedi cyfarfod ar ddau achlysur Mae hefyd wedi atodi datganiad mae'r Grŵp am ei gyhoeddi yn y papurau lleol.
Mae'n egluro ei bod fel practis yn hyderus fod hwn yn gam cadarnhaol i hybu cydweithrediad rhwng y Feddygfa a'i cleifion, i ddarparu perspectif y claf gan sicrhau fod gwasanaethau, cynlluniau a gweithgareddau yn ymateb i anghenion a blaenoriaethau'r claf i feithrin cyfathrebu a'r boblogaeth ehanach o gleifion, meithrin perthnasoedd cryfach a chleifion a helpu i ddatblygu gwasanaeth gofal iechyd o safon, sy'n addas ac yn gynaliadwy ar gyfer anghenion iechyd y gymuned yn y dyfodol. Bwriad y Grŵp fydd dosbarthu gohebiaeth yn rheolaidd yn y dyfodol. **Derbyn**.

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

11. **Rhybudd - Cau'r Ffordd** Dosbarth III gyferbyn a ffordd fynediad Ty'n y Weirglodd, Llangybi ar y 5ed o Ionawr, 2023 – (rhwng 1-3 diwrnod) gwaith adnewyddu polion a gwaith ar geblau ar ran BT Openreach. **Derbyn**.

12. **Cyngor Gwynedd** – ceisiadau cynllunio yn y gymuned – dim

13. **Newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder-cynllun cyfyngu cyflymder 20 milltir yr awr.**
– ebost gan Mr Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar ffyrdd cyfyngedig drwy Gymru o fis Medi 2023. Y bwriad yw y bydd yn gwneud strydoedd a chymunedau yn fwy diogel a chynyddu cyfleoedd i gerdded a beicio. **Derbyn**.

14. **Cofnodion Gweithdy Ardal Ni Dalgylch Pwllheli**
Gweithdy Ardal Ni – Dalgylch Pwllheli , a gynhaliwyd ar y 28 o Fedi 2022. Mae'r mewnbwn i'r sesiwn yn allweddol wrth iddynt symud ymlaen i'r camau nesaf o ddatblygu Cynllun Gweithredu Ardal ar gyfer dalgylch Pwllheli.

Y Clerc wedi anfon y cofnodion o'r sgyrsiau fesul thema a gafwyd yn ystod y sesiwn at bawb. Er mwyn symud ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal fe fydd Alys Lloyd Jones – Swyddog Cefnogi Cymunedau Dalgylch Pwllheli mewn cyswllt a ni dros yr wythnosau nesaf. Bwriad y sgwrs yma fydd i gadarnhau rhai o'r prosiectau posib ddaeth allan o'r sesiwn, ac adnabod camau ar gyfer symud y prosiect yn ei flaen, er mwyn ein galluogi i gynnwys y wybodaeth yn y cynllun gweithredu ardal.

Maent yn gobeithio y bydd gennym **gynllun gweithredu drafft erbyn diwedd Ionawr, ac y byddwn mewn cyswllt eto yn fuan yn y flwyddyn newydd er mwyn trefnu sesiwn i gyflwyno fersiwn drafft o'r cynllun gweithredu.** Fe fydd y sesiwn yma yn gyfle i roi mewnbwn i'r cynllun, ac i ymateb i unrhyw fylchau yn y cynllun drafft. **Penderfynwyd gadael hyn am y tro.**

15. **Y Lon Goed - gorchymyn diwygio map swyddogol o dan adran 53, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**- cais wedi cael ei osod ar ddarn o'r Lon Goed, gan y Gymdeithas Ceffylau Prydeinig. Maent wedi gofyn am gael cofrestru cilffordd cyfyngedig rhwng pwyntiau C-D ar y Map a Datganiad Swyddogol (MDS), oherwydd nid oes statws cyhoeddus i'r rhan yma ar hyn o bryd, ac

- eisiau uwchraddio'r llwybr troed presennol (rhif 70A) rhwng C ac E i gilffordd gyfyngedig.

Fe drafodwyd y mater yma mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar 06.01.2022, ac ar y pryd penderfynwyd gwrthod y cais,
"ar y sail fod nifer o bobl, plant, ysgolion, a chwn yn cerdded ar hyd y Lon yn gyson drwy'r flwyddyn. Byddai cael ceffylau yn mynd ar hyd y Lon felly'n creu perygl i gerddwyr. Mae hefyd ceir y trigolion sydd yn byw ar hyd y rhan yma o'r Lon Goed, yn ogystal a pheirianau a thractorau yn teithio arni'n gyson. Yn ogystal a hyn mae darnau gwlyb ar hyd y darn yma o'r Lon, a byddai ceffylau'n gwneud y sefyllfa'n llawer gwaeth".

**Roedd Cyngor Gwynedd eisiau ymateb, gyda chymaint o wybodaeth cefndir ag sydd bosib, erbyn 09.12.2022, ac mae'r Clerc wedi derbyn cadarnhad gan Mr Euryn Williams, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy i ymestyn y dyddiad cau i'r 27.01.2023. Y Cynghorydd Rhys Tudur am drefnu i anfon ymateb at y Clerc.**

**Materion yn y gymuned**.
16. **Llanystumdwy**
**Pont Rhyd y Croesau** – lori arall wedi cymeryd y tro anghywir, wrth droi o Gwmni Bwyd Harlech ar 04.01.2023 ar hyd y lon gul heibio Talar Deg, ac at giatiau Plas Talhenbont ac yn methu troi. Fe gaewyd y lon am oriau, oherwydd nad oedd yn gallu symud. Mae hyn yn digwydd o dro i dro. Mae'r Clerc wedi cysylltu hefo'r Adran Priffyrdd eto, i ofyn am arwyddion gwell ger Lodge Gwynfryn, Llanystumdwy, ac i gael arwydd i loriau beidio troi i'r dde wrth fynd o Gwmni Bwyd Harlech oherwydd nad yw'r lon yn addas ar gyfer loriau mawr. **Clerc i anfon llythyr at y Cyngor i ofyn am arwyddion gwell**.

17. **Rhoslan/Ynys**
Clerc wedi cysylltu hefo Adran Priffyrdd i glirio dail o'r gwterydd sydd rhwng Ysgubor Fawr i Felin Llecheiddior, yn dilyn yr holl law. Mae rhwng Capel y Beirdd a Llwyn yr Eryr yn ddrwg iawn. **Derbyn**.

18. **Chwilog**
**Uwchraddio Cae Chwarae Chwilog**
Y Cynghorydd Rhys Tudur yn dal i wneud ymholiadau hefo Cyngor Gwynedd i weld beth yw'r opsiynau gorau ar sut i wireddu hyn. **Derbyn**.

19. **Pencaenewydd/Sardis**
20. **Llangybi**

**Materion Ariannol**

21.**Adroddiad Ariannol** gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 1.01.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd

eisioes wedi ei wneud. (Y Clerc wedi trefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi yn dilyn y cyfarfod cyn ei talu).

**Cwmni Lightsource (Gelli Gron),** - eglurwyd fod taliad o **£4,719.95** wedi ei dderbyn i gyfrif banc y Cyngor ar 10.01.2023. Mae hyn yn £529.57 yn fwy na llynedd. **Derbyn**.

22. **Archwilio allannol** – dal heb dderbyn ymateb ganddynt - Clerc wedi holi eto.

23. **Cronfa Covid Tý Doctor Nefyn** - Fe wnaeth y Cyngor Cymuned gyfrannu £1,500.00 tuag at Gronfa Covid Ty Doctor Nefyn fis Ebrill 2020, er mwyn archebu cyfarpar i osgoi lledaenu'r feirws. Derbyniwyd llythyr gan Dr Arfon Williams yn dweud fod rhan sylweddol o'r arian yn y gronfa heb ei wario, a'i fod eisiau gwybod beth yr oeddem eisiau iddynt wneud hefo'r arian sydd dros ben.
Mae wedi gofyn os hoffem gael yr "arian sydd heb ei wario yn nol (pro rata)", neu os hoffem iddynt ei "wario mewn ffordd a fyddai er lles y gymuned?" Maent yn bryderus bod argyfwng costau byw o'n blaenau ac efallai byddai'n "bosib creu banc bwyd lleol, neu dalebau ar gyfer prynu tanwydd ac yn y blaen". **Barn y Cyngor oedd y dylid gofyn am yr arian yn nol, er mwyn ei ddefnyddio o fewn cymuned Llanystumdwy.**

24. **Praesept** – y Clerc wedi anfon cais i Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd yn gofyn am £19,000.00 am y flwyddyn 2023-2024. Trafodwyd y mater yn y cyfarfod Busnes/Cyllid 06.10.2022, ac fe gytunwyd y dylid ei godi o £18,360.00 i £19,000.00 o'r 01.04.2023 ymlaen. **Derbyn**.

25. **Cof Eifionydd**–Cynghorydd Rhys Tudur am drefnu cyfarfod arall yn fuan i benderfynu beth fydd y camau nesaf.

26. **Croesawu'r Eisteddfod i bentrefi/ardaloedd o fewn ffiniau Cyngor Cymuned Llanystumdwy** Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn clustnodi tua £300.00 i brynu baneri/'bynting,' a'i dosbarthu wedyn i'w gosod mewn lleoedd amlwg i o fewn y gymuned.

27. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor wedi cael ei roi yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2022 o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2023. Byddant yn cael ei trafod fis Chwefror 2023.

28. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Wifi Neuadd Chwilog | Mae'r taliad rhwng 01.04.2022 – 31.03.2023 (£34.80 x 1 mis £34.24 x 6 mis, £39.44 x 5 mis=£437.44) | **437.44** | | **437.44** | **437.44** |

29. Cyflog mis Rhagfyr 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Rhagfyr 2022<br>35 awr y mis x £12.50 = £437.50 | 437.50<br>Llai treth £87.60=<br>**£349.90** | **349.90** | **349.90** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Rhagfyr 2022 | £438.00 x 20% =<br>**£87.60** | **87.60** | **87.60** |
| Costau Clerc mis Rhagfyr 2022 | **£16.00** | **16.00** | **16.00** |

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau **02.02.2023** yng Nhapel Pencaenewydd a drwy zoom.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**